



Partneriaeth menter ar y cyd



DP ENERGY



**Datblygu ynni gwyrdd
ar gyfer dyfodol cynaliadwy**

Llyfryn gwybodaeth

Croeso

dyma gyflwyno Gwynt Glas

Mae gan Gwynt Glas y potensial i ddod ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gan gefnogi cymunedau arfordirol a chreu buddion hirdymor i'r rhanbarth.

100%

Targed Llywodraeth y DU yw i'r holl drydan gael ei gynhyrchu o ffynonellau carbon isel erbyn 2035

Sero Net

Targed Llywodraeth Cymru yw cyrraedd sero net erbyn 2050

Mae gwynt ar y môr yn ganolog i strategaeth y DU i leihau allyriadau CO₂, mynd i'r afael â newid hinsawdd, a sicrhau cyflenwadau ynni.

Targed gwynt alltraeth Llywodraeth y DU yw 50GW erbyn 2030, bydd 5GW yn cael ei gyflenwi gan ffermydd gwynt arnofiol.

Mae arloesedd technolegol yn golygu y gall ffermydd gwynt bellach gael eu lleoli ymhell o'r lan mewn dyfroedd dyfnach o lawer fel y rhai yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordir Cymru a De Orllewin Lloegr. Gall technoleg gwynt alltraeth arnofiol harneisio pŵer cyflymder gwynt uwch a mwy cyson i greu ynni gwyrdd. Mae seiliau arnofiol yn cynnwys tyrbîn gwynt wedi'i osod ar is-strwythur arnofiol cytbwys wedi'i angori i wely'r môr gydag angorau.

Yn 2021, cyhoeddodd Ystad y Goron ei bod yn bwriadu dyfarnu hawliau gwely'r môr i ddatblygwyr ar gyfer prosiectau gwynt arnofiol alltraeth yn y Môr Celtaidd, gyda capasiti rhanbarthol cyffredinol o 4GW.


Ein nod yn Gwynt Glas yw datblygu fferm wynt arnofiol alltraeth yn y Môr Celtaidd i gynhyrchu IGW o ynni glân a hybu ffyniant economaidd

rhanbarthol, tra'n lleihau amhariad ar yr amgylchedd naturiol, cymunedau lleol a defnyddwyr y môr.

Mae Gwynt Glas – menter ar y cyd rhwng EDF Renewables a DP Energy – yn cyfuno arbenigedd lleol gyda chyfoeth o wybodaeth byd-eang gan y diwydiant. Dau ddatblygwr ynni adnewyddadwy profiadol a dibynadwy'n cyfuno eu doniau a'u

hadnoddau i ddarparu prosiect a all helpu i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy uchelgeisiol tra'n sicrhau cyflenwadau ynni'r DU a lleihau costau i'r sawl sy'n talu'r biliau.

Mae'r tîm yn frwd dros gefnogi twf sector ynni newydd a all gynnal swyddi medrus sy'n talu'n dda ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg o Gwynt Glas. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir.

Dechreuodd y datblygiad
yn 2021

Adeiladu a gosod
diwedd y **2020au**

Gwynt Glas yn weithredol yn gynnar
yn y 2030au



Lleoliad

Y Môr Celtaidd



Gellid lleoli prosiect Gwynt Glas naill ai yn nyfroedd Cymru neu Loegr, neu rychwantu'r ddau. Ystâd y Goron fydd yn pennu Ardaloedd Datblygu Prosiect y Môr Celtaidd.



Capasiti posibl

1GW




Nifer y tyrbinau




Tua **66** platfform arnofiol

Mae'r map hwn yn cyflwyno pum Ardal Chwilio Mireinio ar gyfer y Môr Celtaidd a gyhoeddwyd gan Ystad y Goron ar 10 Hydref 2022. Bydd Ystad y Goron yn mireinio'r meysydd hyn ymhellach yn Ardaloedd Datblygu Prosiect posibl.

Mae'r pum Ardal Chwilio Mireinio hyn wedi'u lleoli o fewn tair o'r pum Ardal Chwilio eang a gyhoeddwyd gan Ystad y Goron ar 5 Gorffennaf 2022.



0 20 40 60 km

-  **Ardaloedd Chwilio Mireinio Ystad y Goron**
-  **12 milltir forol o derfyn y DU**
-  **Terfyn môr tiriogaethol Cymru**

thecrownstate.co.uk/en-gb/what-we-do/on-the-seabed/floating-offshore-wind

Partneriaeth menter ar y cyd



DP ENERGY



Cipolwg ar Gwynt Glas

Partneriaeth menter ar y cyd rhwng EDF Renewables a DP Energy sy'n cyfuno sawl degawd o lwyddiant wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau ynni blaengar.



1GW

Capasiti cynhyrchu'r prosiect



927,400*

Nifer y cartrefi y gellid eu cyflenwi â thrydan adnewyddadwy

Tua hyd at

66

tyrbin



1.5 miliwn

Amcan nifer y tunelli o CO₂ y gellid eu harbed bob blwyddyn



30 mlynedd


Oes weithredol debygol y fferm wynt arnofiol alltraeth



Uchder tyrbinau

Tebygol o fod yn llawer mwy o ran maint na thyrbinau sefydlog presennol ar y môr sy'n mesur hyd at

320m



Sgiliau

Darparu cyfleoedd addysg mewn cymunedau lleol i ddatblygu gweithlu lleol medrus

Sero Net

Helpu Cymru a'r DU i gyrraedd sero net erbyn 2050

Lleol

Timau wedi'u recriwtio'n lleol gyda swyddfeydd yn Noc Penfro a Chernyw.




Cyfrannu at y Nod 'Ffyniannus' yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** - cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel

Manteision gwynt arnofiol
alltraeth yn y Môr Celtaidd...

 Datgloi
hyd at **4GW**

o gapasiti gwynt arnofiol newydd

erbyn **2035** 

 Darparu dros
3,000 swydd
erbyn **2030***

- Manteisio ar wynt cyson a chryfach
- Lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil niweidiol
- Cefnogi cymunedau arfordirol a chreu buddion hirdymor i'r rhanbarth

Cyfrannu
£682 miliwn*
mewn cyfleoedd
cadwyn gyflenwi
leol  erbyn **2030**

Cyfrannu at
sicrwydd
cyflenwad ynni



...a sut mae Gwynt Glas yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr ynni adnewyddadwy.



Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy

Darparu rhaglen 2 flynedd mewn partneriaeth â **Choleg Sir Benfro** i helpu datblygu gweithlu lleol medrus.

Partneriaid arweiniol:



DP ENERGY



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

90 
myfyriwr

Mae pobl ifanc 16-18 oed yn cymryd rhan ym mlwyddyn gyntaf rhaglen ymarferol unigryw sy'n ymwneud â'r diwydiant.

Mae **Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy** yn cael ei ategu gan raglen Sgiliau a Doniau **Bargen Ddinesig Bae Abertawe**, wedi'i hariannu ar y cyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU, yn ogystal â buddsoddiad o'r sector preifat.

Arwyn Williams

Coleg Sir Benfro – Pennaeth Peirianeg:

"Mae'n bleser i'r Coleg fod yn cydweithio mor agos gyda'r diwydiant i ddatblygu'r doniau sydd eu hangen ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol mewn sector sydd mor bwysig i'n bywydau ni i gyd."

Joshua Thomas

Dywedodd y myfyriwr Peirianeg Fecanyddol L3 yng Ngholeg Sir Benfro sydd wedi cofrestru ar gyfer Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy:

"Dwi wedi cofrestru ar gyfer Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy oherwydd fy mod yn pryderu am newid hinsawdd. Byddwn wrth fy modd yn gweithio yn y sector ynni adnewyddadwy ar ôl gorffen astudio."

Llinell Amser Gwynt Glas

Dau ddatblygwr ynni adnewyddadwy profiadol a dibynadwy yn cyfuno eu doniau a'u hadnoddau i gyflawni prosiect a all helpu i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy uchelgeisiol tra'n sicrhau cyflenwadau ynni'r DU a lleihau costau i'r sawl sy'n talu'r biliau.

Partneriaeth menter ar y cyd



DP ENERGY



2021 – 2023

- Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid
- Dewis safle
- Arolygon ecolegol
- Cytundeb cysylltiad grid
- Cynllunio'r gadwyn gyflenwi
- Cais am Gytundeb Prydles i Ystad y Goron



2023 – 2025

- Casglu data gwaelodlin a chwmpasu Asesiad Effaith Amgylcheddol
- Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a dewis safle
- Ymgynghoriad cyhoeddus statudol
- Mireinio'r dechnoleg
- Cais am ganiatâd cynllunio



Diwedd y 2020au

- Cyfnod adeiladu a gosod



2030au cynnar

- Gwynt Glas yn weithredol

I weld rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

www.gwyntglas.co.uk



Gwynt GLAS

Ynni Gwynt Arnofiol

Cysylltwch â ni

Wrth i'n tîm barhau i weithio ar Gwynt Glas, rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn. Os ydych yn aelod o grŵp neu sefydliad, yn bartner posibl, yn fusnes lleol, neu'n berson â diddordeb, hoffem glywed eich adborth.

E-bostiwrch ni ar: info@gwyntglas.com neu ewch i www.gwyntglas.co.uk

Ar ein gwefan cewch ragor o wybodaeth am Gwynt Glas, gan gynnwys cefndir y prosiect, ein partneriaeth a'n gwerthoedd menter ar y cyd, y broses gynllunio, ein partneriaid yn y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi.

Mae tîm Gwynt Glas wedi ymrwymo i'r cysyniad o fod yn 'gymydog da' a hyrwyddo ein gwerthoedd prosiect craidd yn y ffordd yr ydym yn gwneud busnes. Byddwn bob amser yn ymdrechu i fod yn:

🌱 gyfrifol 🌱 credadwy 🌱 hawddgar 🌱 dibynadwy 🌱 cynhwysol

A fydddech crystal â phasio'r llyfryn hwn ymlaen neu ei ailgylchu yn eich cartref.